# Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus

## Ymateb i Her Newid

Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru
Public Service Wales
Ymateb i Her Newid
Meeting the Challenge of Change



**Mae cyllidebau'n dynn. Mae'r galwadau ar wasanaethau'n cynyddu. Er mwyn parhau i wella gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru rhaid i ni weithio mewn ffyrdd newydd sy'n effeithlon ac yn arloesol.**

Dros y pedair blynedd nesaf bydd cyllideb y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn lleihau £1.8 biliwn o ganlyniad i Gyllideb ac Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Gyda llai o arian, a mwy o alw am wasanaethau, bydd y gwasanaethau cyhoeddus dan fwy o bwysau a bydd pethau'n dynnach arnynt.

I ymateb i'r her enfawr hon, rhaid i ni wneud y mwyaf o'n maint a'n cysylltiadau agos er mwyn cydweithio. Mae angen i ni hybu gwelliant ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus, gan wneud newid go-iawn ar bob lefel.

Mae ein hymdeimlad cryf o gymuned a'n traddodiad o gydweithredu'n seiliau cadarn ar gyfer datblygu ein gwasanaethau. Rhaid i ni roi anghenion pobl a chymunedau yn gyntaf, gan wella'r canlyniadau a'r cyflawniad nawr, yn ogystal â buddsoddi yn y dyfodol.

Er y bydd llai o arian, rydym eisiau sicrhau y bydd pob punt sy'n cael ei gwario gan wasanaethau cyhoeddus Cymru'n gwneud gwahaniaeth i'r bobl sy'n dibynnu arnynt. Bydd economi Cymru'n elwa ar wasanaethau cyhoeddus cryf drwy gyfleoedd caffael, buddsoddi mewn sgiliau a seilwaith sy'n cefnogi adfywio economaidd yn ogystal â'n gwead cymdeithasol.

## Ymateb unigryw

**Dyna pam y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, gwasanaethau cyhoeddus, undebau llafur a sefydliadau gwirfoddol ledled Cymru'n gweithio fel partneriaid yn y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi. Gyda'n gilydd rydym yn dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau, bod yn fwy effeithlon a darparu gwasanaethau da iawn gyda llai o arian.**

Bydd y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi:

- Yn galluogi ac yn cefnogi'r newidiadau mawr sydd eisoes yn digwydd yn GIG Cymru ac sy'n cael eu trafod ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol, addysg a llywodraeth leol.
- Yn gwneud yn siŵr ein bod yn tynnu'r holl gostau dianghenraid allan o'r pethau y mae'n rhaid i ni i gyd eu gwneud, fel caffael neu reoli ein hadeiladau.

Trwy wario llai ond yn well byddwn yn sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen megis iechyd, addysg, tai a gofal cymdeithasol.

# Effeithlonrwydd ac Arloesi: rhaglen weithredu



**Mae Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Fusnes a'r Gyllideb yn cadeirio Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi sy'n cynnwys uwch arweinwyr o awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, sefydliadau gwirfoddol, undebau llafur, yr heddlu a Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

Mae'r Bwrdd yn cynnig arweinyddiaeth ymarferol i ysgogi effeithlonrwydd yn y sector cyhoeddus. Mae'n cefnogi pob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus wrth:

- leihau costau a rhyddhau arian trwy wneud gweithrediadau'n fwy effeithlon
- bod yn arloesol ac annog cymunedau i gymryd rhan wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau
- cael y gwerth mwyaf i economi, amgylchedd a phobl Cymru trwy gynllunio a chyflenwi gwasanaethau'n arbennig o dda.

Mae'r Rhaglen yn creu cyfleoedd i wasanaethau cyhoeddus fanteisio ar atebion sy'n arbed arian, ac arferion gorau wrth weithio, cyn gynted ag y bo modd.

# Meysydd ar gyfer gweithredu

**Mae'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi'n canolbwyntio ar saith maes allweddol ar gyfer gweithredu, gan ddefnyddio arbenigedd penodol i ddod o hyd i ffyrdd gwell o weithio. Bydd y newidiadau y maent yn eu creu yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i'r pwysau cyfredol ar gyllidebau ac i awgrymu ffyrdd o wella gwasanaethau yn y tymor hir. Y saith maes allweddol yw:**

## Caffael a Chomisiynu Cydweithredol

Cydweithio i brynu nwyddau a gwasanaethau am bris gwell.

**Nod:** Dwyn ynghyd y £4.3 biliwn sy'n cael eu gwario bob blwyddyn gan wasanaethau cyhoeddus ar nwyddau a gwasanaethau ac ysgogi arbedion trwy brosesau mwy effeithlon, llai o ddyblygu ymdrech, a pherfformiad gwell gan gyflenwyr – ac ar yr un pryd ystyried effaith fwy hirdymor yr hyn a brynwn a'r ffordd y'i prynwn.

**Sut mae hyn yn cael ei gyflawni:**

cyfnewidcymru™ xchange wales yw un o'r atebion allweddol. Mae'n caniatáu i bob sefydliad yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru chwilio am ffynonellau nwyddau a gwasanaethau, cynnig tendr amdanynt, eu gwerthuso, eu harchebu a thalu amdanynt trwy glicio ar fotwm. Mae cyfnewidcymru yn cael ei gyflwyno ar draws GIG Cymru ac mewn wyth awdurdod lleol, ac mae sawl achos busnes arall ar y gweill. Yn Sir Ddinbych yn unig disgwylir arbed tua £1.5 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd.

## Rheoli Asedau Cenedlaethol

Rheoli adeiladau ac asedau eraill yn fwy effeithiol.

**Nod:** Cael arbedion effeithlonrwydd a buddion o reoli ein hystâd yn strategol a'u defnyddio i helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da. Oddeutu £9.4 biliwn yw'r gwerth a roddir ar yr ystâd gyhoeddus yng Nghymru (ac eithrio asedau'r Llywodraeth ganolog).

**Sut mae hyn yn cael ei gyflawni:**

- Mae'r System Electronig Rheoli Gwybodaeth am Eiddo yn cofnodi ystadau gyda 95% o Ystâd GIG Cymru a 75% o Ystad yr Heddlu bellach wedi'u cofnodi gan y system.
- Mae naw prosiect peilot yn edrych ar fentrau eiddo cydweithredol i wella'r ffordd yr ydym yn cyd-ddefnyddio ein hadeiladau a'n hasedau eraill.
- Rydym yn ymgynghori ar symleiddio protocolau sy'n rheoli trosglwyddiadau tir.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gweithio gyda phartneriaid i adolygu ei asedau ac wedi clustnodi £23 miliwn o werthiannau posibl ynghyd â nifer o gyfleoedd ar gyfer cydweithio yn Sir Gaerfyrddin.

**I gael mwy o wybodaeth ac i ddilyn hynt y rhaglen ewch i:** www.cymru.gov.uk/gwellagwasanaethaucyhoeddus

## TGCh y Gwasanaeth Cyhoeddus - Gwneud defnydd gwell o dechnoleg.

**Nod:** Sicrhau arbedion sylweddol ar dechnoleg gwybodaeth a chyfrifiadurol trwy brynu'n well, defnyddio'n gallach, cydweithio a gweithio'n wahanol.

**Sut mae hyn yn cael ei gyflawni:**

- ad-drefnu canolfannau data er mwyn lleihau'r costau rhedeg
- *Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus* (PSBA) – darparu rhwydwaith cyfrifiadurol, diogel, cyflymach a dibynadwy sy'n edrych at y dyfodol.
- Cefnogi gwelliannau TGCh cydgysylltiedig trwy Strategaeth TGCh newydd ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Mae GIG Cymru a nifer o Awdurdodau Lleol a chyrff Addysg Uwch eisoes wedi arbed tua £5 miliwn drwy ddefnyddio PSBA.

## Gweddnewid y Busnes - Cyflenwi gwasanaethau'n fwy effeithiol.

**Nod:** Manteisio ar arferion da sy'n bodoli eisoes yng Nghymru ac mewn mannau eraill a chysylltu prosiectau sy'n digwydd mewn gwahanol rannau o'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ffyrdd newydd o weithio sydd wedi profi eu gwerth megis technegau busnes darbodus.

**Sut mae hyn yn cael ei gyflawni:**

- Sefydlu cymuned ymarfer eang ar dechnegau busnes darbodus
- Ymchwilio i brosiectau cydwasanaethau cymorth, er mwyn i ni geisio sicrhau'r gwerth gorau ar draws sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus.

Mae awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru yn datblygu un system CCTV uwchdechnolegol ac yn anelu at arbed £450,000 y flwyddyn.

## Modelau Newydd ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau - Dod o hyd i ffyrdd newydd o gynllunio gwasanaethau.

**Aim:** Hybu arloesi a newid cynaliadwy yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi, er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl a gwneud defnydd gwell o adnoddau.

Dyma'r meysydd sy'n cael blaenoriaeth:

- teuluoedd ag anghenion cymhleth a chydgysylltiedig
- cymorth i bobl fyw bywydau annibynnol ac iach
- trais domestig

**Sut mae hyn yn cael ei gyflawni:**

- Edrych ar yr ymchwil sy'n bodoli eisoes er mwyn penderfynu ar y ffyrdd gorau posibl o wneud teuluoedd yn ganolog i'r gwasanaethau
- Dod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o gynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol.
- Datblygu cyfres o ddulliau gweithredu craidd ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl sy'n dioddef trais domestig.

*Opsiwn 2* yw "Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd" yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sy'n gweithio gyda theuluoedd lle mae gan y rhieni broblemau cyffuriau ac alcohol. Mae'r ffigurau'n dangos fod *Opsiwn 2*, ar gyfartaledd, wedi arbed dros £3,000 y plentyn ar gost lleoliadau'n unig.

## Datblygu'r Gweithlu - Datblygu gweithlu'r sector cyhoeddus i ateb galwadau newydd ar y gwasanaethau.

**Nod:** Ymgysylltu â gweithlu gwasanaeth cyhoeddus Cymru a'i ddatblygu fel y caiff y gwasanaethau eu cyflenwi'n well. Yr uchelgais yw creu dull hyblyg a chyson o reoli ein staff a gwneud yn fawr o gyfleoedd i rannu arbenigedd a gwasanaethau.

**Sut mae hyn yn cael ei gyflawni:**

- Ystyried ffyrdd o gynorthwyo staff wrth iddynt symud rhwng sefydliadau, a chanfod cyfleoedd i ddatblygu gyrfaoedd mewn cyfnod o gyni ariannol.

## Arweinyddiaeth - Gwella sgiliau arweinwyr y gwasanaeth cyhoeddus i arwain newid.

**Nod:** Datblygu'r gallu i arwain ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru er mwyn cefnogi effeithlonrwydd ac arloesi.

**Sut mae hyn yn cael ei gyflawni:**

- Darparu cyfres o raglenni hyfforddiant ar ddatblygu arweinyddiaeth i helpu arweinwyr sefydliadau sicrhau llwyddiant mewn cyfnod heriol.

## Buddsoddi i arbed

Bydd ein gwaith ym meysydd effeithlonrwydd ac arloesi'n helpu i greu neu ganfod arferion gorau ac egwyddorion y gellir eu defnyddio ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn rhyddhau arian ac yn helpu gwasanaethau i weithio'n fwy effeithlon gyda'r arian sydd eisoes ar gael, er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau a chanlyniadau.

Mae Cronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n werth £60 miliwn, yn rhoi cymorth ychwanegol i ddatblygu syniadau newydd. Er enghraifft, mae'r Rhaglen Gofal i Bobl Fregus yng Ngwent yn cael buddsoddiad i ddatblygu cymorth a fydd yn helpu pobl fregus barhau i fyw'n annibynnol trwy ddarparu gofal yn eu cartrefi neu'n agos iddynt. Bydd hyn yn osgoi anfon pobl i ysbytai yn ddiangen ac yn arbed tua £1 miliwn y flwyddyn drwy fod yn fwy effeithlon.

Mae'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd hefyd yn cefnogi gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan ddatblygu ein gallu i wneud pethau'n well a chydweithio. Er enghraifft, mae prosiect dan arweiniad Gwerth Cymru'n meithrin arbenigedd ym maes caffael ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, gan ein galluogi i brynu'n well am lai.

## Y darlun mawr

**Dim ond rhan o'r ateb yw'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi, ac mae'n sail i waith sydd ar y gweill ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd da, sy'n gosteffeithiol ac sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- Fframwaith Strategol pum mlynedd ar gyfer Gwasanaethau, Gweithlu a Chyllid GIG Cymru, a fydd yn ysgogi gwasanaethau gofal integredig a gwerth am arian.
- Comisiwn Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyfeiriad i wasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol a'r arbedion a'r mesurau effeithlonrwydd i'w cynnal.
- Adolygiad o Adnoddau'r Rheng Flaen ym maes addysg sy'n canolbwyntio ar symud adnoddau o waith gweinyddu i'r rheng flaen.
- Adolygiad o ba wasanaethau llywodraeth leol fyddai fwyaf priodol ar gyfer pa ardal - yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ei rhan i fod yn fwy effeithlon hefyd. Trwy 'Llwyddo â Llai' mae gweision sifil wedi awgrymu ffyrdd newydd o weithio sy'n arbed arian. Mae'r gweithredu'n cael ei gydgysylltu mewn nifer o feysydd – gan gynnwys recriwtio, dyrchafu, caffael a rheoli contractau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi gweithio gyda'r sector preifat mewn sawl Uwchgynhadledd Economaidd i arwain Cymru allan o'r dirwasgiad a sicrhau adfywiad economaidd cynaliadwy.

Bydd y Rhaglen yn ategu ac yn cefnogi trafodaethau rhwng cyflogwyr ac undebau llafur, yn lleol ac ar draws y Deyrnas Unedig, yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

## Uwchgynadleddau'r Gwasanaeth Cyhoeddus

Er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn ymateb yn llawn i her newid, mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i Arweinwyr ddod ynghyd mewn cyfres o Uwchgynadleddau'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn y rhain mae Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r undebau llafur yn dod at ei gilydd i drafod materion o bwys mawr a datblygu atebion gyda'i gilydd er budd yr holl wasanaethau cyhoeddus.

## Galluogi newid

Mae pob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y trydydd sector a'r undebau llafur, wedi ymrwymo'n llwyr i gael y gwerth gorau posibl am arian o bob punt yng Nghymru. Y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi yw ein ffordd ni o gydweithio i roi polisïau cenedlaethol a lleol ar waith a chefnogi'r polisïau hynny, sydd oll wedi'u hanelu at wella gwasanaethau cyhoeddus a chael canlyniadau gwell i bobl Cymru.

I gael mwy o wybodaeth ac i ddilyn hynt y rhaglen ewch i: www.cymru.gov.uk/gwellagwasanaethaucyhoeddus neu anfonwch neges e-bost at: ymatebihernewid@cymru.gov.uk

© Hawlfraint y Goron Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010 F3781011 WAG10-10132